



Cyfarfod

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

**10.45 y.b., DYDD GWENER, 21AIN EBRILL, 2023**

Lleoliad

## Cyfarfod Rhithiol

**\*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**[lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 13 Ebrill 2023)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

Huw Rowlands

Elfed Williams

Edgar Wyn Owen (eilydd)

## **Aelod Lleol**

Y Cynghorydd Gwilym Jones

# **R H A G L E N**

## **1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## **3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## **4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO**

5 - 7

Cariad Gelato Ltd, The Kiosk, Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9LP

I ystyried y cais

## **TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

- 1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2) Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

# Eitem 4

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>21 Ebrill 2023</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CAIS AM DRWYDDED EIDDO - CARIAD GELATO , PORTHMADOG</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ER PENDERFYNIAD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH AMGYLCHEDD</b>

## **1. CAIS A DDERBYNIWYD**

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer kiosg Hufen Ia Cariad Gelato Limited, The Kiosk, Stryd Fawr, Porthmadog LL49 9LP, gan Cariad Gelato Ltd. Uned 23 Parc Diwydiannol Penamser Porthmadog LL49 9NZ. Kiosg gyda rhywfaint o fyrddau allanol yw'r eiddo. Mae Cariad Gelato yn fusnes teuluol sydd yn cynhyrchu a gwerthu hufen ia wedi ei wneud mewn modd Eidalaid. Mae'r ymgeisydd yn gofyn am ganiatáu gwerthiant alcohol ochr yn ochr ai fusnes creiddiol, gan alluogi cwsmeriaid i fwynhau diod alcohol oddi fewn i ardal eistedd allanol benodol wedi ei ddiffinio; neu i ganiatáu cwsmeriaid i brynu alcohol ar gyfer ei yfed i ffwrdd oddi ar y r eiddo .
- 1.2 Gofynnir yn y cais am yr hawl i werthu alcohol o 12 y prynhawn hyd at 9 yr hwyr bob dydd, ac mae'r eiddo yn agored i werthu hufen ia rhwng 10 a 21:00 bob dydd.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawriad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

### **Oriau agor/Opening hours:**

Dydd Sul/Sunday	10:00 - 21:30
Dydd Llun/Monday	10:00 - 21:30
Dydd Mawrth/Tuesday	10:00 - 21:30
Dydd Mercher/Wednesday	10:00 - 21:30
Dydd Iau/Thursday	10:00 - 21:30
Dydd Gwener/Friday	10:00 - 21:30
Dydd Sadwrn/Saturday	10:00 - 21:30

### **Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:**

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**

Dydd Sul/Sunday	12:00 - 21:00
Dydd Llun/Monday	12:00 - 21:00
Dydd Mawrth/Tuesday	12:00 - 21:00
Dydd Mercher/Wednesday	12:00 - 21:00
Dydd Iau/Thursday	12:00 - 21:00
Dydd Gwener/Friday	12:00 - 21:00
Dydd Sadwrn/Saturday	12:00 - 21:00

## **2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- System TCC safonol gyda chamêrau yn dangos tu mewn a'r ardal yn union tu allan. ; gyda delweddau yn cael eu cadw am o leiaf 30 diwrnod a'u darparu i'r Heddlu neu'r Awdurdod Trwyddedu ar gais rhesymol
- Fe fydd offer y system TCC yn recordio delweddau o safon derbyniol pan mae yr eiddo yn agored i'r cyhoedd.
- Mae gan y Kiosk 'shutters' pren ar gyfer sicrhau diogelwch ychwanegol
- Mae'n rhaid mynd ac alcohol sydd yn cael ei brynu ar gyfer ei yfed oddi ar yr eiddo mewn cynhwysyddion sydd wedi cau.
- Fe fydd staff yn derbyn hyfforddiant mewn gwerthiant alcohol
- Lleoliad offer diogelwch tan ac unrhyw offer diogelwch arall yn unol a gofynion yr awdurdodau cyfrifol a chynnwys unrhyw Aseiad Risg
- Bwriedir gwaredu sbwriel gan gynnwys poteli ar adegau rhesymol fydd yn lleihau'r potensial o niwsans
- Ni fydd sŵn o offer awyriant nac unrhyw offer arall yn achosi niwsans i fusnesau /preswylwyr cyfagos.
- Fe fydd Cynllun Her 21 yn cael ei weithredu ac dim ond cardiau adnabod cydnabyddedig fydd yn cael eu derbyn
- Cedwir bocs cymorth cyntaf ar y safle

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn yr atodlen weithredol sydd wedi ei chyflwyno ar wahân i'r prif gais ( gweler atodiad)

## **3. YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

<b>YMATEBION</b>	<b>SYLWADAU</b>
Aelod lleol/Cyngor Tref Porthmadog	E-bost - gwrthwynebu
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau yn dilyn cyfarfod hefo'r ymgeisydd

### **3.1 Sylwadau'r aelod lleol/Cyngor Tref**

3.2 Fe dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan yr aelod lleol ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Diogelu plant rhag niwed
- Diogelwch cyhoeddus

3.3 Yn benodol ,oherwydd mai prif bwrpas y busnes yw cynhyrchu a gwerthu hufen ia; mae'r busnes a'r eiddo yn denu llawer iawn i blant a theuluoedd fel cwsmeriaid .Datganir pryder y bydd caniatáu gwerthu alcohol yn annog a normaleiddio yfed alcohol ar eiddo sydd ddim yn addas ar gyfer y bwriad. Nodir yn ogystal fod yr eiddo yn agos iawn i Barc chware plant y dref.

3.4 Ymhellach, nodir fod bwriad i drwyddedu llecyn tu allan i gwrtil yr adeilad ar y palmant , yn agos i gyffordd brysur ar stryd Fawr Porthmadog. Pryderir fod hyn yn cynyddu risgiau iechyd a diogelwch y cyhoedd oherwydd agosrwydd at y gyffordd brysur .

#### **4. Cyfaddawd a gyniwyd gan yr ymgeisydd yn dilyn cyfarfod gyda'r Heddlu a Swyddog Trwyddedu ar y 7fed o Fawrth**

- 4.1 Yn dilyn derbyn gwrthwynebiad gan yr aelod lleol fe gafwyd cyfarfod gyda'r ymgeisydd i drafod y posibilrwydd o gynnig cyfaddawd er mwyn cyfarch pryderon yr aelod a'r Cyngor Tref.
- 4.2 Nododd yr ymgeisydd ei bod yn llwyr ddeall pryderon yr aelod lleol a'r Cyngor Tref ac fel canlyniad cytunodd ar gyfaddawd fel a ganlyn –
  - Dim ond gwerthu alcohol ar ôl 17:30, gan mai dyma'r cyfnod mae masnach i deuluoedd a phlant yn dod i ben
  - Alcohol i'w werthu gyda pwdinau /hufen ia yn unig ar ôl 17:30
  - Dim gwerthiant alcohol oddi ar yr eiddo
  - Gweini alcohol yn cael ei gyfyngu i'r ardal 'decking' yn union o flaen cownter gweini'r Kiosk yn unig. Ni fydd alcohol yn cael ei yfed ar fyrddau ar y palmant

Gweler gopi llawn o sylwadau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn yr atodiad; ac fe fydd yr ymgeisydd yn ymhelaethu ar y cynnwys yn ystod gwrandawriad yr is bwyllgor i'r cais

#### **5 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

- 5.1 Yn dilyn y cyfarfod gyda'r ymgeisydd, ac ar sail y cyfaddawd a gytunwyd; fe dderbyniwyd e bost gan swyddog Trwyddedu'r Heddlu yn cadarnhau nad oedd gan yr Heddlu unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau gwrthwynebiad i'r cais. Roedd yr Heddlu yn fodlon fod sicrwydd wedi ei roi fod ethos y busnes yn parhau i ganolbwyntio ar gynhyrchu a gwerthu hufen ia Eidalaid i deuluoedd, yn hytrach na gwerthu alcohol. Nodir fod yr Heddlu yn fodlon gyda'r cyfaddawd sydd wedi eu cynnig; ac ymhellach nodwyd fod yr ymgeisydd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon a godwyd ac wedi dangos parodrwydd i gydweithio.

#### **6 ARGYMHELLIAD**

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, a'r cytundeb cyfaddawdu a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd ; argymhellir fod y Pwyllgor yn CANIATÁU'R CAIS.**